Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Adroddiad ar wasanaethau addysg yng

Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Swyddfeydd Dinesig
Stryd yr Angel
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 4WB

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Ynglŷn â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (BCBC) yn awdurdod lleol yn Ne Cymru gyda chyfanswm poblogaeth o ryw 147,530. Mae'r sir yng nghanol daearyddol De Cymru.

Penodwyd y Prif Weithredwr ym mis Mai 2025. Mae'r Cyfarwyddwr Corfforaethol (Addysg, y Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc) wedi bod yn ei swydd er mis Mawrth 2017. Mae Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet dros Addysg a Gwasanaethau Ieuenctid wedi bod yn eu swydd er mis Mai 2024.

Arolygwyd yr awdurdod lleol ddiwethaf ym mis Mawrth 2019.

Mae 22,364 o ddisgyblion ar draws 59 o ysgolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae 48 o ysgolion cynradd, 9 ysgol uwchradd, 1 uned cyfeirio disgyblion (UCD) a 2 ysgol arbennig. Mae 5 o'r ysgolion hyn yn ddarparwyr cyfrwng Cymraeg.

Dros gyfartaledd o dair blynedd, mae 24.4% o ddisgyblion rhwng 5 ac 15 oed yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Mae arolygwyr yn ystyried ystod eang o wybodaeth am y boblogaeth leol wrth werthuso deilliannau ac ansawdd gwasanaethau addysg. Maent yn ystyried y wybodaeth hon ochr yn ochr â gwybodaeth am y boblogaeth genedlaethol. Mae ychydig o'r wybodaeth fwyaf defnyddiol am blant a phobl ifanc ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi'i nodi isod:

- Mae 8.6% o ddisgyblion rhwng 5 ac 15 oed o leiafrifoedd ethnig.
- Mae gan 1.5% o ddisgyblion rhwng 5 ac 15 oed anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion addysgol arbennig (Gweithredu gan yr Ysgol)
- Mae gan 0.8% o ddisgyblion rhwng 5 ac 15 oed anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion addysgol arbennig (Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy)
- Mae gan 0.4% o ddisgyblion rhwng 5 ac 15 oed anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion addysgol arbennig (Datganiad)
- Mae gan 6.7% o ddisgyblion rhwng 5 ac 15 oed anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion addysgol arbennig (Cynllun Datblygu Unigol)
- Mae 2.5% o ddisgyblion rhwng 5 ac 15 yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol (A, B neu C)
- Mae 7.1% o ddisgyblion rhwng 5 ac 15 oed yn rhugl yn y Gymraeg.
- Mae 370 o blant yn derbyn gofal (wedi'i dalgrynnu i'r 5 agosaf am resymau datgelu)

## Crynodeb

Mae arweinwyr yn dangos dull clir ac wedi'i gydlynu'n strategol i wella deilliannau ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae gweledigaeth gref, y mae diwylliant 'Tîm Pen-y-bont' yn sail iddi, yn hyrwyddo cydweithio, ymddiriedaeth ac atebolrwydd ar y cyd ar draws ysgolion, lleoliadau a gwasanaethau awdurdod lleol. Mae uwch arweinwyr yn weladwy ac yn cynnal perthnasoedd cynhyrchiol ag ysgolion a'r UCD, sy'n eu galluogi i adnabod eu darparwyr yn dda. O ganlyniad, mae'r awdurdod lleol wedi cefnogi'r rhan fwyaf o ysgolion a'r UCD i wneud gwelliannau amserol, sy'n cael eu hadlewyrchu mewn deilliannau arolygu cadarnhaol.

Mae'r awdurdod lleol wedi sefydlu systemau cynhwysfawr i fonitro perfformiad a darparu cymorth a her. Mae partneriaid gwella a swyddogion yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol a gwybodaeth am berfformiad i ddatblygu dealltwriaeth eang o gryfderau a meysydd i'w gwella. Mae hyn yn galluogi'r awdurdod i nodi tanberfformio ac ymyrryd yn briodol, gan arwain at welliannau mewn llawer o ysgolion. Fodd bynnag, mae gormod o amrywioldeb yn ansawdd y gwerthuso. Mae adroddiadau partneriaid gwella yn aml yn ddisgrifiadol ac yn nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigon craff ar effaith y ddarpariaeth ar ddeilliannau a chynnydd disgyblion. Nid yw prosesau sicrhau ansawdd wedi eu datblygu'n ddigonol, ac o ganlyniad, nid yw camau gwella bob amser yn ddigon manwl gywir nac amserol i sicrhau gwelliant cyson.

Mae arweinwyr yn blaenoriaethu dysgu proffesiynol a chydweithio, gan ddarparu cynnig eang ac ymatebol sy'n cefnogi datblygu arweinyddiaeth a gwelliant ysgolion. Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod yn gwerthuso effaith ei ddysgu proffesiynol ar wella addysgu, arweinyddiaeth a deilliannau disgyblion yn ddigon da.

Mae darpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a disgyblion bregus yn gryfder sylweddol. Mae ffocws strategol clir ar gynhwysiant, wedi'i gefnogi gan waith amlasiantaethol cryf, yn sicrhau bod llawer o ddisgyblion yn elwa ar gymorth cydlynus ac amserol. Mae darpariaeth arbenigol amrywiol yr awdurdod, sydd o ansawdd uchel, gan gynnwys ysgolion arbennig, yr UCD a'r canolfannau adnoddau dysgu, yn galluogi llawer o ddisgyblion ag anghenion cymhleth i wneud cynnydd cryf o'u mannau cychwyn. Mae llywodraethu a goruchwylio cryf o ran lleoliadau'r tu allan i'r sir yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion ag ADY yn cael eu haddysgu o fewn yr awdurdod lleol, sy'n cefnogi parhad mewn dysgu a deilliannau cadarnhaol. Yn ychwanegol, mae darpariaeth hynod effeithiol ar gyfer disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol (AHY) yn galluogi bron pob un o'r disgyblion i ailymgysylltu â dysgu, ennill cymwysterau a symud ymlaen i gyrchfannau ôl-16 priodol.

Mae cydweithio effeithiol rhwng gwasanaethau addysg, gofal cymdeithasol a gwasanaethau eraill yn sicrhau bod llawer o ddisgyblion bregus yn elwa ar nodi'n gynnar a chymorth cydlynus. Mae gwasanaethau fel y Tîm Ymgysylltu ag Addysg a'r Tîm Cyfathrebu a Pherthnasoedd yn cyfrannu'n gadarnhaol at les, ymgysylltiad ac ymddygiad disgyblion. Mae cymorth targedig ar gyfer grwpiau bregus yn gwella cyfranogiad a phresenoldeb ar gyfer llawer o ddisgyblion, er bod deilliannau a phresenoldeb i ychydig o grwpiau, gan gynnwys y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn rhy amrywiol o hyd.

Mae'r awdurdod lleol yn rhoi blaenoriaeth uchel i ddiogelu. Mae aelodau, arweinwyr a swyddogion yn hyrwyddo diwylliant diogelu cryf ac yn ymateb yn gadarn i bryderon. Mae llywodraethu sefydledig, goruchwyliaeth effeithiol a gwaith amlasiantaethol cryf yn sicrhau bod trefniadau diogelu yn gadarn ac yn cael eu hymgorffori ar draws gwasanaethau. Gall ysgolion fanteisio ar ystod gynhwysfawr o hyfforddiant a chymorth, ac maent yn gwerthfawrogi adolygiadau cymheiriaid yn arbennig, sy'n cryfhau eu harfer. Mae'r awdurdod lleol yn rhoi pwyslais priodol ar wrando ar ddisgyblion, ac mae eu barn yn cyfrannu'n ystyrlon at hunanwerthuso trefniadau diogelu. O ganlyniad, mae gan ysgolion a'r UCD ddealltwriaeth glir o ddisgwyliadau, ac mae disgyblion yn elwa ar amgylchedd diogel sy'n cefnogi eu lles a'u parodrwydd i ddarllen.

Mae gan yr awdurdod ymagwedd gydlynus at gynllunio strategol a dyrannu adnoddau. Mae ei raglen moderneiddio ysgolion a'i Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cyd-fynd yn dda â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae defnydd effeithiol o gyllid cyfalaf, yn enwedig y cysylltiad cryf rhwng buddsoddi ac addysgeg mewn darpariaeth blynyddoedd cynnar, yn gwella amgylcheddau dysgu ac yn cefnogi addysgu o ansawdd uchel.

Mae negeseuon a gwerthusiadau o arolygiad gwaith ieuenctid a gynhaliwyd ychydig cyn yr arolygiad hwn wedi helpu llywio'r arolygiad ehangach o wasanaethau addysg llywodraeth leol, lle bo'n berthnasol.

## Argymhellion

A1 Miniogi ansawdd hunanwerthuso a chynllunio gwelliant, gan sicrhau bod meini prawf llwyddiant defnyddiol ar gyfer camau gweithredu a bod gwerthusiadau'n canolbwyntio ar yr effaith a gaiff camau gweithredu ar ddeilliannau plant a phobl ifanc

## Beth sy'n digwydd nesaf

Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu, dylai'r awdurdod lleol ddiweddaru ei gynlluniau i fynd i'r afael â'r argymhellion ac ystyried y diffygion a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Gwasanaethau addysg a'u heffaith

### Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn cefnogi a herio'i ysgolion i wella ansawdd addysgu a dysgu ac arweinyddiaeth ysgolion?

Mae gan yr awdurdod lleol weledigaeth glir ar gyfer darparu addysg o ansawdd uchel a gwella deilliannau ar gyfer pob un o'r plant a'r bobl ifanc. Mae uwch swyddogion yn hynod weladwy ac yn cyfleu disgwyliadau uchel gydag ysgolion. Maent wedi datblygu perthnasoedd cynhyrchiol ag arweinwyr ysgolion sydd wedi eu helpu i adnabod eu darparwyr yn dda. Ymgorfforir diwylliant cydweithredol cryf 'Tîm Pen-y-bont' ar draws ysgolion a'r uned cyfeirio disgyblion (UCD), ac ymhlith swyddogion yr awdurdod lleol.

Mae ysgolion a'r UCD yn gwerthfawrogi'r cymorth a ddarperir gan bartneriaid gwella a gyflogir gan yr awdurdod lleol. Mae partneriaid gwella wedi sefydlu cysylltiadau gwerthfawr â gwasanaethau addysg eraill, er enghraifft cymorth ag ymddygiad a chymorth ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae'r cysylltiadau hyn yn helpu'r partneriaid gwella i ddarparu cymorth amserol a buddiol i'w hysgolion. Mae partneriaid gwella yn casglu ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol o ymweliadau ag ysgolion a'r UCD i lywio eu barnau am berfformiad darparwyr unigol. Mae hyn wedi helpu'r awdurdod lleol i ddatblygu dealltwriaeth eang o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn y ddarpariaeth yn eu hysgolion.

Ceir cyfleoedd rheolaidd i swyddogion drafod perfformiad ysgolion ac adolygu'r cymorth a'r her a ddarperir i ysgolion unigol. Cefnogir hyn yn dda gan system perfformiad a rheolaeth ariannol yr awdurdod lleol sy'n rhoi trosolwg defnyddiol o ystod eang o agweddau ar waith pob darparwr. Er bod hyn wedi galluogi swyddogion yr awdurdod lleol i dargedu cymorth a her briodol lle mae angen hyn, mae gormod o amrywioldeb yn ansawdd y wybodaeth sy'n cael ei chynnwys yng ngwerthusiadau'r partneriaid gwella. At ei gilydd, mae eu gwerthusiadau'n disgrifio darpariaeth mewn ysgolion ac nid ydynt bob amser yn canolbwyntio'n ddigon da ar effaith y ddarpariaeth ar wella deilliannau disgyblion. Mae hyn yn golygu nad yw camau gweithredu i sicrhau gwelliant bob amser yn ddigon manwl gywir. Mae hyn yn rhannol oherwydd nad yw sicrhau ansawdd gwaith partneriaid gwella wedi'i datblygu'n ddigonol.

Dros gyfnod, mae ysgolion a'r UCD wedi elwa ar ystod o hyfforddiant a chymorth priodol o ran arweinyddiaeth i ddatblygu a gwella arweinyddiaeth ar bob lefel. Mae partneriaid gwella yn darparu cymorth penodol a phwrpasol yn ddefnyddiol ar gyfer ysgolion unigol a chlystyrau o ysgolion, pan mae angen hyn. Mae penaethiaid a dirprwy benaethiaid yn elwa ar gyfleoedd rheolaidd i gyfarfod â'i gilydd, wedi'i hwyluso gan yr awdurdod lleol, i rannu arfer effeithiol o ran arweinyddiaeth. Mae'r cymorth a roddir i ysgolion arbennig a'r UCD gan swyddogion yr awdurdod lleol yn hynod effeithiol. Mae gan y swyddogion y medrau sydd eu hangen i ddarparu cyngor a her werthfawr i arweinwyr yn y darparwyr hyn. Mae partneriaid gwella yn datblygu perthnasoedd cryf â chyrff llywodraethol, gan ddarparu cyngor, arweiniad a dysgu proffesiynol sy'n helpu llywodraethwyr i ddeall perfformiad ysgolion a chefnogi gwelliant.

Yn gyffredinol, mae'r awdurdod lleol yn nodi a mynd i'r afael yn gyflym ag unrhyw danberfformio yn eu hysgolion a'r UCD. Maent yn defnyddio'u pwerau statudol yn briodol i ddarparu cymorth a her ychwanegol, pan fydd angen. Yn sgil hyn, mae llawer o ddarparwyr wedi gwneud gwelliannau amserol yn eu gwaith. Ceir ychydig iawn o achosion lle mae'r awdurdod lleol wedi dibynnu gormod ar bartneriaid allanol i nodi diffygion mewn darparwyr. Fodd bynnag, maent wedi gweithredu'n rhagweithiol ar ddysgu oddi wrth achosion pan mae pobl eraill wedi nodi gwendidau mewn ysgolion nad oedd swyddogion wedi eu cydnabod yn y gorffennol.

Mae model clwstwr yr awdurdod lleol ar gyfer gwaith partneriaid gwella wedi cryfhau cydweithio rhwng darparwyr ac wedi eu cefnogi i rannu strategaethau i fynd i'r afael â blaenoriaethau gwella. Mae swyddogion yr awdurdod lleol yn cydweithio'n dda â'i gilydd i ddarparu cymorth penodol ar gyfer darparwyr, lle mae angen, o ganlyniad i ystod eu harbenigedd a'u profiad. Mae ysgolion a'r UCD yn elwa ar gael eu cyfeirio i ysgolion eraill sydd ag arfer hynod effeithiol mewn meysydd penodol. Gall darparwyr fanteisio hefyd ar ddysgu proffesiynol teilwredig clystyrau a'r awdurdod cyfan i helpu targedu meysydd cyffredin i'w gwella.

Mae'r awdurdod lleol yn gweithio'n agos gyda'r consortiwm rhanbarthol i helpu sicrhau bod eu cynnig dysgu proffesiynol yn fuddiol i ddiwallu anghenion eu hysgolion a'r UCD. Mae hyn yn cynnwys cyfle i fanteisio ar gymorth a hyfforddiant gwerthfawr mewn clystyrau ac ysgolion unigol. Fodd bynnag, nid yw gwerthusiad yr awdurdod lleol o effaith eu cynnig dysgu proffesiynol eu hunain a chynnig dysgu proffesiynol y consortiwm rhanbarthol yn gwbl effeithiol o ran barnu effaith dysgu proffesiynol ar wella addysgu, deilliannau disgyblion ac arweinyddiaeth.

Dros gyfnod, mae deilliannau arolygu mewn ysgolion a'r UCD ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi bod yn gadarnhaol. Er mis Ebrill 2022, rydym wedi arolygu 46 o'r 60 ysgol ym Mhen-y-bont ar Ogwr, yn cynnwys y ddwy ysgol arbennig a gynhelir a'r UCD. Mae hyn yn cynnwys pum ysgol uwchradd a 38 ysgol gynradd. Roedd angen mesurau arbennig ar ddwy ysgol

gynradd. Ni farnwyd bod angen unrhyw lefel o weithgarwch dilynol statudol ar unrhyw ysgolion uwchradd, ysgolion arbennig na'r UCD.

## Pa mor effeithiol yw darpariaeth yr awdurdod lleol ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY?

Mae'r awdurdod lleol yn cynnig darpariaeth effeithiol i gefnogi plant a phobl ifac ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae arweinyddiaeth gref a chydlynus yn gosod cynhwysiant yn ganolog i waith yr awdurdod. Mae swyddogion wedi datblygu perthnasoedd gwaith cadarnhaol ac ymddiriedus ag ysgolion.

Mae swyddogion cynhwysiant wedi datblygu system addysg gynhwysol sy'n galluogi plant a phobl ifanc i fanteisio ar ddarpariaeth arbenigol sy'n diwallu eu hanghenion yn effeithiol naill ai mewn lleoliadau prif ffrwd neu ddarpariaeth arbenigol. Fodd bynnag, mae arweinwyr yn cydnabod nad yw capasiti arbenigol presennol yn diwallu lefelau angen cynyddol yn llawn.

Mae darpariaeth arbenigol yr awdurdod lleol yn amrywiol ac o safon uchel. Mae darpariaeth o fewn ei ysgolion arbennig a'i uned cyfeirio disgyblion (UCD) yn hynod effeithiol o ran diwallu anghenion plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth. Mae canolfannau adnoddau dysgu mewn ysgolion prif ffrwd yn ymestyn y cynnig hwn ymhellach trwy alluogi disgyblion i elwa ar gymorth arbenigol fel rhan o'u cymunedau ysgolion lleol. O ganlyniad, mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol cymhleth fel arfer yn gwneud cynnydd cryf o'u mannau cychwyn.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY trwy gyfrwng y Gymraeg yn y canolfannau adnoddau dysgu dwyieithog yn gryfder nodedig, sy'n cefnogi cyfle i fanteisio ar ddarpariaeth arbenigol yn eu dewis iaith yn effeithiol.

Mae cydweithio rhwng ysgolion a'r awdurdod lleol yn gryfder yn null yr awdurdod, sy'n sicrhau bod plant a phobl ifanc yn elwa ar gymorth cydlynus, amserol ac wedi'i arwain gan anghenion. Mae'r tîm cynhwysiant, y gwasanaeth seicoleg addysg a'r athrawon ymgynghorol arbenigol yn darparu cymorth ac ymyrraeth effeithiol ac ymatebol ar gyfer ysgolion. Er enghraifft, mae cyngor ac ymyriadau'r Tîm Cyfathrebu a Pherthnasoedd (CART) wedi cefnogi gwelliant yn ymddygiad ac ymgysylltiad disgyblion ar draws ysgolion a lleoliadau.

Mae swyddogion yr awdurdod lleol yn hawdd mynd atynt, ac mae arweinwyr ysgolion yn gwerthfawrogi'r cyngor a'r her maent yn eu darparu. Mae'r awdurdod lleol wedi cefnogi ysgolion trwy gyhoeddi dogfennau arweiniad defnyddiol sy'n amlinellu disgwyliadau ar gyfer arfer gynhwysol. Mae'r awdurdod yn gosod disgwyliadau clir ar gyfer arfer ystafell ddosbarth gynhwysol, ac mae ysgolion a lleoliadau yn gynyddol hyderus o ran addasu eu haddysgu a'u cynllunio i ddiwallu ystod eang o anghenion dysgu ychwanegol o fewn

lleoliadau prif ffrwd ac arbenigol. Hefyd, mae arweinwyr yn annog cydweithio rhwng ysgolion prif ffrwd, ysgolion arbennig a’r uned cyfeirio disgyblion i sicrhau bod disgyblion ag anghenion ychwanegol yn gallu manteisio ar gymorth a llwybrau priodol. Mae hyn yn cryfhau gallu ysgolion a lleoliadau i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc yn effeithiol.

Mae dysgu proffesiynol ar gyfer ADY yn effeithiol ac yn cyd-fynd yn dda ag anghenion yr ysgolion a’r lleoliadau o fewn yr awdurdod. Mae staff yn elwa ar ystod eang o hyfforddiant cyffredinol a theilwredig o ansawdd uchel, er enghraifft gan y gwasanaeth seicoleg addysg a’r timau cynhwysiant arbenigol. Mae hyn yn gwella ansawdd a chysondeb yr addysgu a’r dysgu ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY. Un o gryfderau gwaith yr awdurdod yw’r rhwydwaith sefydledig a’r grwpiau clwstwr o Gydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cydlynwyr ADY) ysgolion, sy’n cefnogi cynllunio strategol a datrys problemau gweithredol o amgylch darpariaeth ADY, yn ogystal â chefnogi cydweithio proffesiynol agos rhwng ysgolion. Mae’r rhwydweithiau hyn yn galluogi Cydlynwyr ADY i rannu arbenigedd, datblygu dulliau cyson a chryfhau cyfathrebu ar draws sectorau cynradd ac uwchradd. O ganlyniad, mae trefniadau pontio rhwng ysgolion yn esmwyth, ar y cyfan, gyda rhannu gwybodaeth yn well sy’n galluogi ysgolion i ymateb yn gyflymach ac yn fwy effeithiol i anghenion disgyblion.

Mae cymorth yr awdurdod lleol ar gyfer darpariaeth y blynyddoedd cynnar yn gryfder. Mae’r ymgysylltu rhwng partneriaid amlasiantaethol fel y bwrdd iechyd lleol, y gwasanaeth seicoleg addysg a’r timau athrawon arbenigol yn golygu bod mecanwaith sefydledig ar gyfer nodi’n gynnar i sicrhau ymyriadau priodol ac ataliol ar gyfer plant yn y blynyddoedd cynnar. Caiff pontio o leoliadau nas cynhelir i’r ysgol ei reoli’n ofalus trwy gyfarfodydd cynllunio strwythuredig yn canolbwyntio ar yr unigolyn, sy’n sicrhau parhad mewn darpariaeth a phartneriaeth gref â theuluoedd. Mae’r dull ataliol hwn yn lleihau uwchgyfeirio ac yn dangos ethos o ymyrraeth gynnar a amlinellir mewn deddfwriaeth. Hefyd, mae swyddogion wedi rhoi protocol pontio ôl-16 ar waith i sicrhau bod dysgwyr yn cael eu nodi a’u cefnogi i bontio’n llwyddiannus i ddarpariaeth ôl-16.

Mae’r awdurdod lleol wedi rhoi Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) a Chod ADY ar gyfer Cymru 2021 ar waith yn llawn. Mae swyddogion yr awdurdod lleol yn darparu arweiniad gwerthfawr a chymorth ymarferol i ysgolion wrth iddynt ymgorffori gofynion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg. Dywed arweinwyr a llywodraethwyr ysgolion fod swyddogion yn ymatebol pan mae ysgolion yn gofyn am gyngor ar nodi anghenion a phrosesau statudol, ac yn datblygu trefniadau cymorth effeithiol ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae’r cymorth hwn yn helpu ysgolion i gryfhau eu prosesau mewnol ar gyfer nodi ac ymateb i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae gan yr awdurdod lleol ddull cadarn o ddatrys pryderon rhieni a gofalwyr ynghylch lleoliad a darpariaeth yn gynnar, wedi’i gefnogi gan y panel ADY a deialog bwrpasol a

pharhaus rhwng swyddogion a theuluoedd. Mae’r dull anffurfiol hwn o ddatrys anghydfodau yn effeithiol iawn, sy’n arwain at uwchgyfeirio ychydig iawn o achosion i ddatrys anghydfodau yn ffurfiol neu dribiwnlys. Mae hyn yn gryfder clir ac yn adlewyrchu dull sefydledig a chydweithredol.

## Pa mor effeithiol yw darpariaeth yr awdurdod lleol ar gyfer dysgwyr bregus, gan gynnwys y rhai sy’n cael addysg heblaw yn yr ysgol (AHY)?

Mae’r awdurdod lleol yn darparu arweinyddiaeth strategol gref o ran cynhwysiant. Mae arweinwyr yn fyfyriol ac yn dangos diben moesol cryf trwy ddull amlasiantaethol cydlynus a chadarn sy’n cefnogi disgyblion bregus yn effeithiol. Mae prosesau hunanwerthuso wedi eu datblygu’n dda ac yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth yn briodol, gan gynnwys y Proffil Asesu Bregusrwydd (VAP), y system Perfformiad a Rheolaeth Ariannol (PFM) a Gwybodaeth Adrodd Amcanion Timau Strategol (STORI). Mae’r systemau hyn yn llywio cynllunio strategol a datblygu gwasanaethau yn dda, gan sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn cael ymyriadau amserol a phriodol.

Mae gwaith partneriaeth yn gryfder nodedig. Mae cydweithio hynod effeithiol ar draws addysg, gofal cymdeithasol, cyfiawnder ieuenctid, cymorth cynnar a gwasanaethau ieuenctid ac iechyd yn darparu ymagwedd gydlynus a chyfannol at gymorth. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn elwa ar ymyrraeth gynnar gydlynus a pharhad mewn darpariaeth, sy’n arwain at les, ymgysylltu a chyfranogiad gwell.

Mae gan y Tîm Ymgysylltu Addysg (EET) hynod effeithiol rôl ganolog mewn arwain a chydlynu presenoldeb, diogelu a chynhwysiant ar draws ysgolion. Mae gan y tîm brosesau cadarn i olrhain a monitro’r cymorth a’r ymyriadau sydd ar gael i ddisgyblion, yn ogystal â darparu cymorth uniongyrchol i ysgolion. Mae hyn yn galluogi nodi risg yn gynharach ac yn cefnogi llawer o ddisgyblion sydd mewn perygl o gael eu gwahardd neu o ymddieithrio i aros mewn addysg. Yn ychwanegol, mae’r awdurdod yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gyfrannu at ddatblygu gwasanaethau trwy ddulliau cynhwysol a difyr.

Mae’r awdurdod lleol yn darparu ystod eang a phwrpasol o gymorth targedig ar gyfer grwpiau bregus, yn cynnwys disgyblion o gymunedau lleiafrifoedd ethnig, disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, ffoaduriaid, gofalwyr ifanc a disgyblion sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Mae’r cymorth hwn wedi’i bersonoli ac yn cyfrannu at bresenoldeb ac ymgysylltu gwell ar gyfer llawer o ddisgyblion. Mae darpariaeth ar gyfer disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) yn cefnogi gwelliant mewn ymgysylltu a phresenoldeb yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae presenoldeb ar gyfer y grŵp hwn islaw cyfartaleddau cenedlaethol o hyd, ac mae perfformiad ar gyfer y disgyblion hyn yn rhy amrywiol.

### Ciplun: Darpariaeth hynod effeithiol ar gyfer disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol yn arwain at ddeilliannau cadarnhaol ar gyfer bron pob disgybl

Mae darpariaeth ar gyfer disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol (AHY) yn gryfder sylweddol. Mae darpariaeth yr UCD yn cynnig amgylchedd anogol, cymorth therapiwtig cryf a disgwyliadau uchel sy'n llwyddo i ennyn diddordeb disgyblion o'r newydd mewn dysgu, yn cynnwys y rhai mewn gwasanaethau tiwtora. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn ennill cymwysterau ac yn symud ymlaen yn llwyddiannus i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant ôl-16.

Mae darpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn effeithiol yn y rhan fwyaf o achosion. Mae nodi cynnar cryf, arbenigedd a phrosesau panel cadarn yn sicrhau continwwm cydlynus o ran darpariaeth. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn manteisio ar gymorth yn brydlon, deilliannau gwell a chynhwysiant, tra'n lleihau dibyniaeth ar leoliadau'r tu allan i'r sir.

### Ciplun: Mae llywodraethu clir o ran cynhwysiant yn golygu bod y rhan fwyaf o ddisgyblion ag ADY yn cael eu haddysgu yn yr awdurdod lleol

Mae'r awdurdod lleol wedi cryfhau llywodraethu a goruchwyliaeth ariannol o leoliadau'r tu allan i'r sir trwy olrhain, prosesau panel a monitro cyllidebau yn well. Mae hyn yn rhoi mwy o sicrwydd fod lleoliadau yn briodol ac adnoddau'n cael eu defnyddio yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag ADY bellach yn cael eu haddysgu'n briodol o fewn yr awdurdod lleol, sy'n gryfder sylweddol.

Mae'r awdurdod lleol wedi cryfhau ei ddull strategol o hyrwyddo cydraddoldeb a mynd i'r afael â gwahaniaethu. Mae llywodraethu gwell, systemau adrodd ac arfer wrth-hiliol wedi'i hymgorffori o fewn y cwricwlwm, ynghyd â safbwyntiau disgyblion, yn cynyddu hyder i adrodd am achosion a gwella ymwybyddiaeth staff.

Caiff cymorth ar gyfer disgyblion sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref ei lywodraethu'n dda ac mae'n cynnwys ffocws priodol ar ddiogelu. Mae polisïau a threfniadau monitro clir yn sicrhau bod hawliau a lles disgyblion yn cael eu diogelu'n briodol. Mae gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid a chymorth ieuenctid yn hynod effeithiol, gan ddarparu ymyriadau sy'n ystyriol o drawma ac ymyriadau ataliol sy'n cefnogi ailymgysylltu ag addysg a llwybrau dilyniant cadarnhaol. Fodd bynnag, nododd adroddiad diweddar gan Wasanaethau Prawf Ei Fawrhydi fod 'nifer sylweddol o blant nad ydynt ymgysylltu â'u hawl addysg'.

Mae gan yr awdurdod ddull clir a chydlynus o atal pobl ifanc rhag dod yn bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NACH). Mae defnydd effeithiol o ddata a phanelau amlasiantaethol yn cefnogi nodi cynnar ac ymyrraeth dargedig. Mae deilliannau

ar gyfer disgyblion sy’n gadael Blwyddyn 11 yn cymharu’n ffafriol â chyfartaleddau cenedlaethol. Mae arweinwyr yn cydnabod bod angen gwneud mwy o waith i wella cyfranogiad yn y sector ôl-16 a sicrhau cynaliadwyedd.

Mae gan yr awdurdod ffocws cryf ar arfer sy’n ystyriol o drawma ac arfer berthynol, a gefnogir gan ddatblygu’r gweithlu a gwasanaethau arbenigol fel y Tîm Cyfathrebu a Pherthnasoedd (CART). Mae hyn yn gwella gallu ysgolion i ymateb i anghenion ymddygiadol ac emosiynol disgyblion. Fodd bynnag, mae galw cynyddol, cyfyngiadau capasiti a phwysau ariannol yn achosi risg i gynaliadwyedd CART.

Mae cyfraddau gwahardd ar gyfer disgyblion bregus yn amrywiol o hyd, ac yn rhy uchel mewn lleiafrif o ysgolion. Mae swyddogion wedi gweithio gydag ystod o randdeiliaid i gyd-lunio’r Fframwaith Gofal, Cymorth ac Arweiniad sy’n darparu ffocws strategol clir ar atal a mynd i’r afael ag achosion sylfaenol gwahardd. Megis dechrau cael ei roi ar waith y mae hyn.

At ei gilydd, mae’r awdurdod lleol yn darparu cymorth cryf ac sy’n gwella ar gyfer disgyblion bregus gyda sylfaen gadarn ar gyfer gwelliant parhaus. Mae partneriaethau sefydledig, arweinyddiaeth strategol effeithiol, ymrwymiad clir i gynhwysiant, mentrau i fynd i’r afael â thlodi, a gwelliannau mewn llwybrau cyflogadwyedd yn dangos ffocws clir ar wella cyfleoedd mewn bywyd ar gyfer plant a phobl ifanc.

### Pa mor dda y mae trefniadau moderneiddio ac aildrefnu ysgolion yr awdurdod lleol yn sicrhau darpariaeth addysg briodol ar gyfer pob un o’r plant a’r bobl ifanc, gan gynnwys y rhai mewn lleoliadau cyn-ysgol ac ôl-16?

At ei gilydd, mae’r awdurdod lleol yn dangos ymagwedd gydlynus at gynllunio strategol a threfniadaeth ei ddarpariaeth addysg. Mae ei weledigaeth ar gyfer moderneiddio yn cyd-fynd yn glir â blaenoriaethau cenedlaethol a chorfforaethol, ac mae rhesymeg gref ar gyfer buddsoddi ar draws y rhaglen dreigl naw blynedd yn sail iddi. Mae swyddogion yn sicrhau bod y gwaith hwn yn cyd-fynd yn agos â’r blaenoriaethau o fewn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, sy’n cefnogi datblygiad darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Yn ychwanegol, mae swyddogion yn ystyried asesiadau cynhwysfawr o ofynion lleoedd ysgol, ac yn cynllunio’n bwrpasol, er enghraifft wrth ymateb i anghenion lleol fel effaith datblygiadau tai.

Ceir ethos cryf o waith tîm a chydweithio. Mae swyddogion yn ymgysylltu’n gynhyrchiol ag ystod eang o bartneriaid, yn cynnwys datblygwyr, darparwyr addysg a busnesau, i alinio penderfyniadau allweddol a sicrhau bod darpariaeth newydd yn cael ei hintegreiddio’n dda o fewn cymunedau. Mae enghreifftiau ymarferol, fel cydweithio i fynd i’r afael â threfniadau mynediad i safleoedd ochr yn ochr â datblygiadau masnachol, yn dangos y dull cydlynus hwn.

Mae'r awdurdod yn cynnal dealltwriaeth glir o gyflwr ei ystâd trwy arolygon rheolaidd, sy'n ei alluogi i dargedu buddsoddiad yn briodol. Mae camau buddsoddi blaenorol wedi cyflawni deilliannau buddiol, yn cynnwys adeiladau newydd ac adeiladau wedi eu hadnewyddu, sy'n gwella amgylcheddau dysgu ar gyfer disgyblion. Yn ddiweddar, er bod yr awdurdod wedi wynebu heriau wrth fwrw ymlaen â rhai cynlluniau, yn cynnwys cyfyngiadau safleoedd, pwysau ariannol ac ystyriaethau amgylcheddol, mae wedi cynnal momentwm ac wedi addasu cynlluniau yn briodol.

Mae arweinwyr yn ymgysylltu'n bwrpasol ag ystod eang o randdeiliaid. Maent yn gweithredu ar safbwyntiau arweinwyr ysgolion a disgyblion sy'n cyfrannu'n ystyrlon at brosesau dylunio. Mae'r rhaglen moderneiddio ysgolion yn ffurfio elfen ganolog o strategaeth gyfalaf yr awdurdod ac mae'n elwa ar gynllunio strwythuredig, amlflwyddyn. Mae penderfyniadau am flaenoriaethu yn destun her a chraffu priodol, yn cynnwys goruchwyliaeth gan aelodau etholedig, sy'n rhoi sicrwydd bod adnoddau'n cael eu cyfeirio'n effeithiol. Mae dyluniad adeiladau newydd yn adlewyrchu pwyslais cryf ar gefnogi addysgu a dysgu. Mae cyfleusterau yn addasadwy, yn gynhwysol ac yn cefnogi gweithredu Cwricwlwm i Gymru, gyda sylw gofalus i les, diogelwch a hygyrchedd. Mae gan swyddogion oruchwyliaeth strategol gadarn o faterion fel traffig a hygyrchedd, yn cynnwys ymrwymiad clir i flaenoriaethu teithio llesol. Mae defnydd cymunedol hefyd yn nodwedd allweddol dyluniadau, sy'n cryfhau rôl ysgolion fel adnodd gwerthfawr o fewn eu hardal leol.

Mae ffocws clir ar ddatblygu darpariaeth y blynyddoedd cynnar a gofal plant, gyda chydweithio effeithiol i gefnogi pontio i addysg statudol. Nodwedd nodedig o waith yr awdurdod yw'r graddau y mae swyddogion yr awdurdod lleol yn sicrhau bod gwelliannau i'r amgylchedd ffisegol yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu plant.

## Ciplun: Cysylltu buddsoddiad cyfalaf â gwelliannau i ddulliau addysgu

Mae'r awdurdod lleol wedi datblygu dull hynod effeithiol ar gyfer defnyddio grantiau cyfalaf bach i ymestyn darpariaeth y blynyddoedd cynnar. Mae swyddogion yn sicrhau bod cyllid yn cyd-fynd yn agos ag anghenion a nodwyd, gan arwain at welliannau pwrpasol fel mannau synhwyraidd ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol ac amgylcheddau sy'n hyrwyddo chwarae a dysgu cynaledig. Un o gryfderau nodedig y gwaith hwn yw'r integreiddio cryf rhwng buddsoddiad cyfalaf ac addysgeg. Mae tîm y blynyddoedd cynnar a gofal plant yn cefnogi lleoliadau ym mhob cam, yn cynnwys nodi blaenoriaethau, datblygu cynigion, darparu dysgu proffesiynol perthnasol a monitro'r effaith ar brofiadau plant. Mae'r broses gydlynus hon o'r dechrau i'r diwedd yn sicrhau bod datblygiadau wedi eu gwreiddio'n gadarn mewn arfer effeithiol ac egwyddorion Cwricwlwm i Gymru, yn enwedig o ran creu amgylcheddau sy'n galluogi a chefnogi rhyngweithio o ansawdd uchel rhwng oedolion a phlant.

Mae'r awdurdod yn gwneud cynnydd cadarn o ran ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae wedi cynyddu nifer y darparwyr cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg ac yn cynllunio'u lleoliadau yn strategol i gefnogi dilyniant plant ar hyd y continwwm iaith. Yn ychwanegol, ceir darpariaeth cyfrwng Cymraeg effeithiol ar gyfer disgyblion sy'n mynychu Canolfannau Adnoddau Dysgu. Mae cam presennol y rhaglen moderneiddio ysgolion yn dangos ymrwymiad cryf i ddatblygu addysg cyfrwng Cymraeg ymhellach, yn enwedig yn y sector cynradd. Yn ychwanegol, mae gan yr awdurdod ddull tra ystyriol i gryfhau darpariaeth ar gyfer trochi hwyr i gefnogi disgyblion sy'n ymuno ag ysgolion cyfrwng Cymraeg. Er bod y rhaglen foderneiddio wedi gwella mynediad at addysg Gymraeg, mae rhai bylchau daearyddol o hyd.

Ar lefel ôl-16, mae'r awdurdod yn gweithio'n adeiladol gyda phartneriaid i sicrhau ystod briodol o lwybrau. Mae dysgwyr yn elwa ar gyfuniad addas o gyfleoedd academaidd a galwedigaethol, wedi eu cefnogi trwy drefniadau hyblyg rhwng ysgolion a darparwyr addysg bellach. Mae cydweithio, yn cynnwys modelau cyflwyno hybrid, yn helpu cynnal darpariaeth. Er enghraifft, gall dysgwyr mewn dosbarthiadau chweched dosbarth ysgolion ar draws yr awdurdod ddilyn cwrs y Gyfraith Safon Uwch a gynhelir gan Goleg Pen-y-bont.

## Arwain a gwella

Mae uwch arweinwyr yn cyfleu gweledigaeth gref i wella deilliannau ar gyfer pob un o'r plant a'r bobl ifanc, sy'n cael ei deall yn dda gan swyddogion, ysgolion a lleoliadau addysg eraill, a phartneriaid ehangach. Mae'r ymrwymiad hwn ar y cyd yn meithrin diwylliant cadarnhaol 'Tîm Pen-y-bont' sy'n hyrwyddo cydweithio, cyfrifoldeb ar y cyd a ffocws ar wella deilliannau.

Mae'r Cyfarwyddwr Addysg yn angerddol am wella gwasanaethau addysg, ac adlewyrchir hyn yn ei arweinyddiaeth ac ymgysylltiad gweladwy ag ysgolion. Mae'n darparu arweinyddiaeth ymroddgar a phwrpasol. Ar y cyd â'r Prif Weithredwr, yr Aelod Cabinet dros Addysg a'r uwch dîm arweinyddiaeth, ceir ethos tîm sefydledig sy'n cynnal ffocws cryf ar wella safonau a chynhwysiant. Mae arweinwyr yn hwyluso partneriaethau gwaith hynod effeithiol ag ystod eang o randdeiliaid a thimau, fel cyfiawnder ieuenctid, y gwasanaeth iechyd a'r heddlu, sy'n hyrwyddo deialog agored, yn atgyfnerthu disgwyliadau ac yn helpu sicrhau cymorth amserol, pan fydd angen.

Mae gan arweinwyr hanes da o sicrhau gwelliant yn yr awdurdod, fel y cynnydd yn erbyn argymhellion blaenorol Estyn mewn cryfhau darpariaeth Gymraeg a'r modd y maent wedi cynyddu cyflymdra'r gwelliant mewn ysgolion sy'n achosi pryder. Mae arweinwyr yn cysylltu buddsoddiad cyfalaf yn effeithiol â gwelliannau mewn addysgu a dysgu, gan sicrhau bod amgylcheddau newydd ac amgylcheddau wedi eu hadnewyddu yn cefnogi addysgeg well. Maent wedi cryfhau darpariaeth ar gyfer disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol, gan alluogi mwy o ddisgyblion i gael addysg addas ac ailymgysylltu â

dysgu. Mae arweinwyr wedi gwella trefniadau ar gyfer lleoliadau'r tu allan i'r sir, hefyd, ac effeithiolrwydd darpariaeth ADY arbenigol, gan sicrhau darpariaeth fwy priodol ar gyfer disgyblion ag anghenion cymhleth. Er bod presenoldeb yn gryf, ar y cyfan, mae arweinwyr yn cydnabod y bu gwelliant arafach na'r hyn a ddymunir o ran cynyddu presenoldeb ychydig o grwpiau o ddisgyblion, yn enwedig y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae arweinwyr yn ymwybodol o'r risg i gapasiti timau cynhwysiant ADY a'r heriau ariannol sy'n wynebu cyllidebau ysgolion.

Ceir diwylliant cryf o welliant parhaus yn yr awdurdod gyda phrosesau sefydledig i fonitro ac adolygu ei waith. Mae'r awdurdod wedi datblygu systemau soffistigedig, yn cynnwys ei drefniadau rheoli perfformiad a rheolaeth ariannol, sy'n rhoi trosolwg a gwybodaeth eang i arweinwyr am ei ysgolion. Mae cyfarfodydd rheolaidd a strwythuredig yn galluogi swyddogion i rannu gwybodaeth a monitro cynnydd. Mae'r trefniadau hyn yn cefnogi gwneud penderfyniadau amserol ac ymatebion cydlynus i bryderon sy'n dod i'r amlwg.

Mae arweinwyr yn defnyddio ystod eang o wybodaeth, yn cynnwys data, adroddiadau gan bartneriaid gwella a gwybodaeth gan wasanaethau, i lywio'u dealltwriaeth o berfformiad. Mewn ychydig o feysydd, fel gwasanaethau ar gyfer disgyblion bregus, mae prosesau hunanwerthuso yn fwy datblygedig ac yn cefnogi cynllunio strategol a chyflwyno gwasanaethau yn effeithiol. At ei gilydd, er bod systemau monitro ac adrodd helaeth, nid yw hunanwerthuso mewn meysydd gwasanaethau addysg amrywiol yn gyson werthusol. Nid yw bob amser yn nodi'n ddigon manwl gywir effaith camau gweithredu ar wella deilliannau ar gyfer disgyblion.

Mae arweinwyr wedi sefydlu dull o gynllunio gwelliant sy'n cael ei ymgorffori'n dda. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau corfforaethol, strategol a busnes sydd wedi eu halinio'n addas, y mae systemau monitro, fel STORI, yn sail iddynt. O ganlyniad, mae gan arweinwyr drosolwg clir o flaenoriaethau, maent yn olrhain camau gweithredu ac yn ymateb i faterion sy'n dod i'r amlwg yn briodol. Fodd bynnag, er bod cynlluniau gwella yn gynhwysfawr, maent yn canolbwyntio ar ormod o flaenoriaethau o ystyried capasiti'r tîm swyddogion. Nid yw meini prawf llwyddiant a chamau gweithredu yn fanwl gywir, yn fesuradwy nac wedi eu cysylltu'n glir â gwelliannau yn neilliannau plant a phobl ifanc yn gyson, ac mae adrodd yn aml yn ddisgrifiadol yn hytrach na dadansoddol.

Mae'r awdurdod yn cynnig rhaglen dysgu proffesiynol eang ac ymatebol sy'n cefnogi staff a llywodraethwyr yn effeithiol. Mae arweinwyr yn rhoi blaenoriaeth i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol sy'n arwain at alinio clir rhwng dysgu proffesiynol ac anghenion a nodwyd. Mae cyfleoedd ar gyfer cydweithio, yn cynnwys gwaith clwstwr a chymorth rhwng ysgolion, yn cryfhau capasiti arwain ar draws yr awdurdod. Yn benodol, mae cymorth ar gyfer ysgolion arbennig a'r UCD yn hynod effeithiol ac yn cyfrannu at ddarpariaethau a deilliannau cryf. Mae prosesau rheoli perfformiad addas ar waith ar gyfer swyddogion y

gyfarwyddiaeth addysg. Mae arweinwyr yn cydnabod nad yw prosesau i sicrhau ansawdd gwaith partneriaid gwella yn ddigon effeithiol.

Mae trefniadau craffu ar gyfer gwasanaethau addysg wedi eu strwythuro'n dda. Mae ymgysylltu rheolaidd rhwng swyddogion ac aelodau etholedig yn helpu cynnal trosolwg clir o wasanaethau addysg. Mae aelodau etholedig yn ymgysylltu'n bwrpasol â sesiynau craffu sydd, ar y cyfan, yn darparu fframwaith cadarn ar gyfer atebolrwydd ac yn cyfrannu'n effeithiol at oruchwyliaeth ddemocrataidd gref. Mae aelodau craffu yn cael arweiniad a dysgu proffesiynol priodol, sy'n eu cynorthwyo i ddeall perfformiad ysgolion yn well a chyfrannu'n ystyrlon at drafodaethau am welliant. At ei gilydd, mae'r trefniadau hyn yn cyfrannu at ddull cydweithredol o oruchwylio a chefnogi gwaith parhaus yr awdurdod i wella deilliannau ar gyfer plant a phobl ifanc.

Mae'r awdurdod lleol yn dangos ffocws clir a rhagweithiol ar gydraddoldeb, yn cynnwys y profiad a'r deilliannau ar gyfer dysgwyr o aelwydydd incwm isel, gan ddarparu cyfleoedd rhwydweithio a hyfforddi rheolaidd ar gyfer ysgolion. Mae'n casglu ac yn adrodd am ddata ar wahaniaethu i'r Cabinet ac yn defnyddio hyn i nodi patrymau sy'n dod i'r amlwg. Fodd bynnag, er bod trefniadau monitro wedi hen ennill eu plwyf, nid yw'r awdurdod yn gwerthuso'n ddigon manwl gywir sut mae ei ymyriadau yn lleihau achosion o wahaniaethu yn uniongyrchol.

Mae'r awdurdod lleol yn hyrwyddo diwylliant diogelu cryf. Mae arweinyddiaeth strategol glir, llywodraethu cadarn a chydweithio amlasiantaethol effeithiol yn sail i hyn. Rhoddir blaenoriaeth i ddiogelu o fewn cynllunio corfforaethol, gydag amcanion gwella diffiniedig ac alinio cryf rhwng bwriad strategol a chyflwyno gweithredol. Mae arweinwyr ar bob lefel yn dangos ymrwymiad clir i ddiogelu, wedi'i gefnogi gan bolisïau cynhwysfawr, adolygiadau rheolaidd, a chraffu cryf ar lefel cyfarwyddwr.

Ceir strwythurau llywodraethu sefydledig, yn cynnwys cysylltiadau effeithiol â'r bwrdd diogelu rhanbarthol a phrosesau corfforaethol, sy'n hyrwyddo atebolrwydd a chysondeb. Mae gwaith amlasiantaethol yn gryfder allweddol, gyda threfniadau fel yr hyb diogelu amlasiantaethol (MASH) a grwpiau gweithredol ar y cyd yn hwyluso rhannu gwybodaeth yn amserol, ymatebion cydlynus, a her briodol rhwng partneriaid.

Mae ysgolion a lleoliadau yn elwa ar lefel uchel o gymorth ac arweiniad cyson ar ddiogelu gan swyddogion yr awdurdod lleol. Dywed unigolion dynodedig ar gyfer diogelu eu bod yn gallu elwa ar gyngor buddiol, llwybrau uwchgyfeirio clir, a deialog broffesiynol werthfawr trwy archwiliadau ac ymgysylltu parhaus. Mae darpariaeth hyfforddiant yn eang, yn ymatebol ac yn uchel ei pharch, sy'n cyfrannu at ddealltwriaeth gryfach o gyfrifoldebau diogelu ar draws y system. Mae prosesau diogelu, yn cynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â phryderon proffesiynol, yn glir ac yn gynyddol gyson, gyda llais plant a phobl ifanc yn briodol o ganolog.

Mae trefniadau sicrhau ansawdd ar gyfer diogelu yn gadarn ac yn gwella. Mae archwiliadau rheolaidd, ochr yn ochr ag arfer fyfyriol a her broffesiynol, yn cynorthwyo ysgolion a'r UCD i werthuso a chryfhau eu harfer ddiogelu. Mae lefelau uchel o gydymffurfio, y gwelir tystiolaeth ohono drwy ddeilliannau archwilio, yn dangos ymwybyddiaeth gref o ddisgwyliadau diogelu. Caiff hyn ei gryfhau ymhellach trwy'r tîm addysg ac ymgysylltu yn cynnwys disgyblion yn rhan o'r her, ac adolygu ysgolion ac archwiliadau diogelu'r UCD.

Mae'r awdurdod lleol yn dangos ymagwedd ragweithiol at nodi ac ymateb i faterion diogelu sy'n dod i'r amlwg. Mae'n olrhain yn effeithiol ac yn darparu cymorth targedig ar gyfer disgyblion bregus, gan gynnwys y rhai sy'n colli addysg neu'n cael eu lleoli'r tu allan i'r sir, wedi ei gefnogi gan fonitro trylwyr ac ymglymiad amlasiantaethol cryf. Mae'r cymorth gan y Tîm Ymgysylltu ag Addysg yn gryfder arbennig, sy'n dangos arfer ddiogelu hynod effeithiol trwy olrhain trylwyr, ymyrraeth amserol a gwaith partneriaeth cryf. Mae swyddogion yn myfyrio'n rheolaidd ar arfer yr awdurdod ac ar ganfyddiadau o adolygiadau cenedlaethol ac adroddiadau i lywio gwelliant parhaus. Mae swyddogion yn gwneud defnydd buddiol o'r wybodaeth o archwiliadau presenoldeb a diogelu i gynllunio'n strategol ar gyfer gwelliant parhaus.

Mae arfer ddiogelu yn gryf ac yn cael ei hymgorffori'n dda, wedi'i nodweddu gan ddulliau cyson a ffocws clir ar wrando ar blant a phobl ifanc. Mae ymagwedd fyfyriol yr awdurdod lleol at arfer a dysgu, yn cynnwys o hyfforddiant a chydweithio, yn gryfder sy'n cefnogi ac yn arwain at welliant parhaus, ochr yn ochr â dealltwriaeth gynyddol o drothwyau a rolau o fewn gwaith amlasiantaethol.

Ceir ymrwymiad clir i wella'r ddarpariaeth a deilliannau plant a phobl ifanc yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Dangosir hyn trwy ddyrannu adnoddau yn addas i ysgolion a lleoliadau, a thrwy leihau lefel yr arbedion sydd ei hangen oddi wrthynt er gwaethaf y sefyllfa ariannol heriol sy'n wynebu'r sector cyhoeddus. Mae'r awdurdod lleol yn lliniaru risgiau ariannol yn effeithiol i ysgolion trwy ariannu ansicrwydd yn ystod blwyddyn, fel dyfarniadau cyflog neu newidiadau mewn costau ynni. Mae'r awdurdod lleol wedi nodi na fydd unrhyw ostyngiad i'r gyllideb i ysgolion yn 2026–27 a 2027–28. Mae hyn yn rhoi mwy o sicrwydd i ysgolion o ran eu cynllunio ariannol. Caiff ymrwymiad yr awdurdod lleol i addysg ei gefnogi ymhellach gan ei raglen gyfalaf a moderneiddio ysgolion. Mae buddsoddiad yr awdurdod lleol yn ei flaenoriaethau yn cefnogi cyflawni ei uchelgeisiau.

Er gwaethaf y flaenoriaeth a roddir i gyllid addysg, mae balansau ysgolion yn frau. Rhagwelir y byddant yn cyrraedd diffyg cyfanredol o £5.6 miliwn, a disgwylir y bydd diffyg yng nghyllideb 75% o ysgolion erbyn Mawrth 2026. Yn unol ag awdurdodau lleol eraill, mae balansau wedi disgyn yn gyson er mis Mawrth 2022. Cydnabyddir yr her hon ymhlith uwch swyddogion, ac fe'i hadroddir i aelodau etholedig trwy gofrestrau risg a monitro cyllidebau chwarterol. Mae gan yr awdurdod lleol a'r ysgolion sydd â diffyg ariannol gynlluniau adfer

cytûn, y maent yn eu hadolygu bob blwyddyn. Mae’r awdurdod lleol yn cydnabod bod rheoli diffygion ariannol yn amserol ac yn effeithiol yn sicrhau bod adnoddau cytbwys ar gael o hyd i ddisgyblion nawr ac yn y dyfodol.

Ceir dealltwriaeth drylwyr ac ar y cyd o’r sefyllfa ariannol ar bob lefel. Mae cyfathrebu rheolaidd a gonest trwy ystod o gyfarfodydd buddiol, yn cynnwys y fforwm cyllideb ysgolion, er enghraifft, yn golygu bod ysgolion yn deall y materion ariannol ehangach sy’n wynebu’r awdurdod lleol.

Mae’r awdurdod lleol yn dangos dealltwriaeth gadarn o gyllid ysgolion unigol trwy ei drefniadau monitro sefydledig. Adroddir hyn yn briodol i swyddogion trwy’r system monitro perfformiad a chyllid. Caiff aelodau eu hysbysu’n dda trwy systemau fel adroddiadau chwarterol ar gyllidebau a chofrestrau risg. Mae hyn yn galluogi sgyrsiau gonest ac agored i gefnogi pob partner i wneud penderfyniadau gwybodus.

Mae ysgolion a lleoliadau yn elwa ar ystod eang o gymorth ac adnoddau a ddarperir gan yr awdurdod lleol. O ganlyniad i ddetholiad eang a pherthnasol o gytundebau lefel gwasanaeth, mae’r nifer sy’n manteisio arnynt yn gryf. Mae’r awdurdod lleol yn adolygu ac addasu ei gynnig yn rheolaidd i ddiwallu anghenion esblygol ysgolion a lleoliadau, gan sicrhau mynediad parhaus at wasanaethau gwerthfawr. Mae hyn yn cefnogi ysgolion a lleoliadau yn dda i wella darpariaeth a deilliannau ar gyfer plant a phobl ifanc.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn ymgynghori â'r awdurdod lleol ar y cwestiynau arolygu lleol i'w defnyddio yn ystod yr arolygiad, yn seiliedig ar hunanwerthusiad yr awdurdod, cynlluniau strategol a data perthnasol a ddelir gan Estyn
- yn dadansoddi'r canlyniadau o holiaduron agored, yn cynnwys barn dysgwyr, rhieni, staff a llywodraethwyr ysgolion, staff yr awdurdod lleol, staff y consortiwm rhanbarthol, aelodau etholedig a'r cyhoedd
- yn cynnal ymweliad rhagarweiniol â'r awdurdod lleol i gyfarfod ag ystod o bartneriaid perthnasol i wasanaethau addysg, fel cynrychiolwyr dysgwyr, penaethiaid a llywodraethwyr, ac arweinwyr o asiantaethau statudol a'r trydydd sector sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cyfarfod ag arweinydd y Cyngor, aelodau etholedig sy'n gyfrifol am wasanaethau addysg, aelodau etholedig sy'n gyfrifol am graffu ar wasanaethau addysg, y prif weithredwr, y cyfarwyddwr addysg, arweinwyr a rheolwyr eraill mewn gwasanaethau addysg, staff perthnasol eraill yn yr awdurdod lleol, rheolwr gyfarwyddwr y consortiwm rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion, a staff perthnasol eraill o'r consortiwm rhanbarthol
- yn edrych yn agos ar brosesau hunanwerthuso'r awdurdod lleol
- yn ystyried cynlluniau strategol a gweithredol yr awdurdod lleol ar gyfer gwella
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau, yn cynnwys gwybodaeth am ddeilliannau dysgwyr, gwybodaeth am berfformiad ysgolion a lleoliadau addysg eraill, yn cynnwys gwybodaeth gan y consortiwm rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion, cofnodion o amrywiaeth o gyfarfodydd, adroddiadau a gyflwynwyd i'r Cyngor neu'r pwyllgor craffu, gwybodaeth yn ymwneud â diogelu dysgwyr, ac unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i wasanaethau addysg yr awdurdod lleol a ddelir gan Estyn

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu, er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad
- yn darparu copi drafft o'r adroddiad i'r awdurdod lleol i nodi unrhyw bryderon â chywirdeb ffeithiol, a gwneud diwygiadau ble mae angen

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr awdurdod lleol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 38 Deddf Addysg 1997, Deddf Plant 2004 a Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a)  mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  08/05/2026